

**Mark Drakeford AM/AC**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Simon Thomas AM/AC  
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Caerdydd  
CF99 1NA

9 Ionawr 2017

Annwyl Simon,

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 (Tachwedd 2016)**

Mae'n bleser gennyf ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei waith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2017-18 (Tachwedd 2016).

Atodaf nodyn yn Atodiad A, sy'n ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad.

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**Mark Drakeford AM/AC**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol  
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

## **Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb ddrafft**

### **Rhaglen Lywodraethu**

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai dogfennau'r Gyllideb ddrafft yn y dyfodol ddangos yn glir sut y mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi bod yn sail i'r broses o bennu'r gyllideb a sut y mae wedi gyrru'r broses honno'n ei blaen. Dylai'r dogfennau ddangos yn amlycach hefyd pa ganlyniadau sydd i fod i ddeillio o'r cyllid.**

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Gyda'i gilydd, mae naratif Cyllideb Ddrafft 2017-18 a'r daflen 'Y Gyllideb yn Gryno' yn nodi sut y llywiodd y cynlluniau gwario gan 'Symud Cymru Ymlaen' a sut mae ein Cyllideb yn gwneud cynnydd o ran rhoi ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru ar waith ac yn erbyn yr ymrwymadau allweddol yn ein rhaglen lywodraethu.

Pan roddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, dywedodd fod y broses o gyflwyno gwybodaeth gyllidebol yn un sy'n datblygu a chydabu'r Pwyllgor fod hyn yn wir. O ran canlyniadau, dywedodd nad oedd bob tro'n hawdd tynnu llinell uniongyrchol rhwng cyllid a chanlyniadau ond bod y system gyfan yn canolbwyntio'n llawer mwy ar geisio crynhoi'r canlyniadau a'r gwahaniaeth y mae gwariant yn ei gael ar fywydau pobl. Cyfeiriodd hefyd at y trafodaethau y mae Gweinidogion unigol sy'n gwario yn eu cael i nodi'r canlyniadau penodol y maent yn disgwyl i'r rhaglenni eu sicrhau.

Wrth baratoi cyllidebau yn y dyfodol, byddwn yn adlewyrchu ar y dystiolaeth a'r adborth a gafwyd yn ystod y broses o graffu ar y Gyllideb.

### **Trethu a Benthycu**

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith i Ysgrifennydd y Cabinet fod yn agored am fenthycu, dyledion ac ad-daliadau. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael yn fwy rhwydd ac mae'n argymhell y dylid cynnwys gwybodaeth fanwl am ymrwymadau ariannol y Llywodraeth yn nogfennau'r Gyllideb ddrafft, ac y dylai'r wybodaeth hon fod yn hawdd cael gafael arni.**

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Yn ei lythyr at y Pwyllgor Cyllid ar 1 Tachwedd, darparodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol y wybodaeth ddiweddaraf am effaith benthycu ar gyllidebau, gan gynnwys mewn perthynas â chynlluniau benthycu sy'n defnyddio arian refeniw.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi manylion unrhyw ymrwymadau benthycu newydd ar sail flynyddol, a, thrwy wneud hynny, byddwn yn ystyried pryd yn ystod cylch y gyllideb yw'r amser mwyaf priodol i wneud hyn.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r manylion am yr incwm o ardrethi annomestig, gan gynnwys rhagolygon ystyrlon a gwybodaeth am lefel yr incwm o ardrethi annomestig sy'n cael ei drosglwyddo o'r naill flwyddyn i'r llall, fod yn fwy tryloyw. Mae'n argymhell y dylid cynnwys y manylion hyn yn nogfennau'r Gyllideb ddrafft er mwyn bod yn fwy tryloyw.**

**Ymateb:** Derbyn

Pan roddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref, eglurodd fod llunio rhagolygon ar gyfer incwm o gyfraddau annomestig yn anodd yn ei hanfod. Mae hyn oherwydd bod angen gwneud amrywiaeth o ragdybiaethau, er enghraifft ynghylch lefelau chwyddiant yn y dyfodol a newidiadau i'r sylfaen dreth yn y flwyddyn bresennol a'r flwyddyn i ddod, ar gyfer y rhagolygon o incwm a ffactorau eraill, sy'n bwydo i mewn i'r cyfrifiad o'r amcangyfrif cyffredinol o'r swm sydd ar gael i'w ddsbarthu. Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r opsiynau ar gyfer gwella'r wybodaeth a ddarperir ynghylch cyfraddau annomestig o fewn y dogfennau am y gyllideb ddrafft i hwyluso tryloywder.

### **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn credu y gellid defnyddio asesiad effaith integredig strategol da i ddangos sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dylanwadu ar y gyllideb, ac mae'n argymhell bod y Llywodraeth yn edrych ar y posibilrwydd o wneud hyn.**

**Ymateb:** Derbyn

Ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf, rydym wedi defnyddio dull integredig ar gyfer asesu effaith, gan ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau cyllidebol strategol ar sail tystiolaeth drwy ddadansoddi tystiolaeth ategol ynghylch grwpiau a warchodir. Mae hyn wedi cynnwys ystyriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth baratoi ar gyfer cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r asesiadau effaith integredig strategol yn un enghraifft o sut rydym yn ceisio edrych ar dystiolaeth mewn modd cysylltiedig ar draws bob dim a wna Llywodraeth Cymru. Eleni, cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r asesiad effaith integredig strategol fel rhan o ddogfennau'r gyllideb, yn hytrach na fel dogfen ar wahân, fel cam tuag at helpu pobl i weld sut y caiff penderfyniadau am y gyllideb eu gwneud mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddangos.

Yn y ddadl ar y Gyllideb ddrafft, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, o ganlyniad i'r gwaith a wnaed yn y Pedwerydd Cynulliad gan y Gweinidog Cyllid blaenorol, Jane Hutt, fod Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio mewn ffordd fwy soffistigedig ar yr effaith ar gydraddoldeb yng nghylch y gyllideb. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer cyllideb ddrafft 2017-18 wedi

gwneud defnydd helaeth o'r gwaith hwnnw, mewn adrannau unigol ac yn ganolog.

Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ein bod yn ystyried amcanestyniadau demograffig a phroffiliau oedran oherwydd rydym yn gwybod bod y galw am wasanaethau'n amrywio ar draws y cylch bywyd. Rydym yn edrych ar y nodweddion a warchodir yn unigol, ac yn ceisio cydbwysu'r wybodaeth hon â'r wybodaeth am ddemograffeg a thueddiadau hirdymor yr ydym yn ei chynnwys yn yr asesiad effaith integredig strategol.

Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i egluro sut y gellir gwneud gwelliannau ar gyfer cylch nesaf y gyllideb, gan gynnwys ailedrych ar sut y gweithredwn ein hegwyddorion cydraddoldeb wrth gynllunio'r gyllideb dros yr amserlen hwy. Mae'r gwaith a wnaed gan y Weinyddiaeth flaenorol yn darparu llwyfan ar gyfer ystyried gwelliannau pellach ac edrychir ar y rhain ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau a ddatblygir gan ddefnyddio egwyddorion y Ddeddf.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Llywodraeth roi mwy o fanylion am sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau unigol ac ar y gyllideb gyfan yn y dyfodol.**

**Ymateb:** Derbyn

Dyma'r gyllideb gyntaf i Gymru a lywiwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ers iddo ddod i rym ym mis Ebrill. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i wneud gwelliannau sy'n dangos yn fwy eglur sut mae'n defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i lywio penderfyniadau am y gyllideb.

Pan roddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref, dywedodd y byddai angen gwneud mwy i feddwl am sut mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pum dull o weithio yn y dyfodol. Eglurodd eu bod wedi bod yn ffordd o brofi i ba raddau y mae'r gyllideb yn cyd-fynd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol mai diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol oedd peri newid diwylliannol yn y ffordd yr ydym yn gweithio. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd rhai dyraniadau penodol lle bo cysylltiad amlwg â'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae'n bwysicach edrych ar sut y mae'r gyllideb gyfan yn cefnogi'r Ddeddf, yn hytrach na chanolbwyntio ar nifer o rannau gwahanol.

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Rhagfyr, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ei fod yn bwriadu cyflwyno newidiadau'r flwyddyn nesaf i'r paratodau mewnol ar gyfer y gyllideb, gan weithio drwy welliannau y gellir eu gwneud drwy ddefnyddio'r egwyddorion yn y Ddeddf. Dywedodd yn glir na fydd yr holl newidiadau'n digwydd ar unwaith

na thros nos. Bydd gwaith i nodi'r newidiadau'n cael ei ystyried ochr yn ochr â gwaith ehangach i sefydlu egwyddorion y Ddeddf.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywodraeth yn y dyfodol yn sicrhau ei bod yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth am berfformiad sy'n ymwneud â'r amcanion llesiant, neu wybodaeth am unrhyw newidiadau iddynt, cyn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft er mwyn i randdeiliaid allu gweld sut y mae'r gyllideb yn cyd-fynd â'r amcanion llesiant.**

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Rydym wedi ymrwymo i edrych ar sut rydym yn adrodd ar y cynnydd o ran gweithredu *Symud Cymru Ymlaen* a'r amcanion llesiant cysylltiedig. Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y saith o amcanion llesiant cenedlaethol a'r 14 o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru yn llunio sylfaen i'n dull ehangach o fonitro ac adrodd. Rydym yn cydnabod y bydd angen monitro'r camau a ddatblygir i gyflawni'r amcanion hyn yn ofalus ac adrodd arnynt yn flynyddol, yn unol â'r Ddeddf. Byddwn yn darparu rhagor o fanylion yn y man ynghylch sut y byddwn yn monitro hyn.

### **Cyllid Iechyd**

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywodraeth yn rhoi mwy o wybodaeth gefndir i gyd-fynd â chyllidebau drafft y dyfodol, er mwyn dangos sut y mae cydbwysedd y cyllid yn newid rhwng gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gofal cymdeithasol, integreiddio rhwng gwasanaethau a rhaglenni yn gyffredinol.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth sy'n cefnogi craffu ar lefel macro o'r gyllideb ddrafft ac ar lefel y dyraniadau portffolio.

Mae dyraniad refeniw blynyddol i'r byrddau iechyd lleol yn rhoi gwybodaeth lefel uchel am ddyrannu cyllid y GIG, sy'n ymestyn i ddarparu manylion rhwng sectorau, fel gofal sylfaenol a gwasanaethau ysbytai a chymunedol. Gall Llywodraeth Cymru amlygu yn y llythyr dyrannu lle mae wedi gwneud buddsoddiad penodol i gefnogi integreiddio gwasanaethau, fel y Gronfa Gofal Canolraddol neu'r Gronfa Gofal Sylfaenol, ac mae'n gwneud hynny.

Ar hyn o bryd, hysbysir byrddau iechyd lleol ynghylch eu dyraniadau ym mis Rhagfyr, sydd ar ôl i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi. Er mwyn paratoi ar gyfer cyllidebau drafft yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr opsiynau amseru ar gyfer hysbysu dyraniadau byrddau iechyd. Byddwn hefyd yn ystyried sut i gyflwyno gwybodaeth ynghylch sut y mae'r cyllid yn newid rhwng sectorau.

## **Iechyd – Atal a Thrawsffurfio Gwasanaethau**

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Llywodraeth roi mwy o wybodaeth gefndir pan gyhoeddir Cyllidebau drafft yn y dyfodol er mwyn dangos sut y mae'r dyraniadau yn gymorth i fuddsoddi mewn gwaith ataliol a thrawsnewid gwasanaethau.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Llywodraeth ymrwymo i arwain, cefnogi a rhoi cyfeiriad i alluogi'r GIG i fwrw ymlaen â'r newid diwylliannol angenrheidiol ac i alluogi staff i oresgyn y rhwystrau i fuddsoddi mewn prosiectau ataliol, trawsnewidiol neu gydweithredol, ac i sicrhau bod modd cyflawni'r newid angenrheidiol.

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod tystion yn credu nad yw'r system bresennol i fesur perfformiad yn cydnabod nac yn ysgogi'r agenda ataliol, ac mae'n cytuno â'r farn y dylai'r dulliau o fesur perfformiad gefnogi'r agenda ataliol. Mae'n argymhell bod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â hyn.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall wneud mwy i ddangos sut mae dyraniadau'n cyfrannu tuag at waith atal a gweddnewid. Mae gwaith ar y gweill o fewn y portffolio Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i wella ein dealltwriaeth o sut y mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn symud tuag at wariant ataliol.

Mae cyllid penodol wedi'i neilltuo yn 2017-18 i ysgogi rhagor o weddnewid yn y GIG, yn enwedig mewn cynlluniau sy'n cryfhau gwaith ataliol ymhellach, ac sy'n sicrhau rhagor o newid o fodolau darparu gwasanaeth traddodiadol mewn ysbytai, a lle y ceir prawf clir o ddulliau cydweithredol a rhanbarthol o newid gwasanaethau.

Un enghraifft o gyllid gweddnewid yw'r £40 miliwn o gyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer Ystâd GIG Cymru, i gefnogi'r ddarpariaeth o fodolau gofal newydd a datblygu cynlluniau ar gyfer cyfleusterau mewn gofal sylfaenol a chymunedol a chenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig ledled Cymru.

Gan weithio gyda phobl broffesiynol yn y GIG, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio dulliau a phrosiectau cydweithredol sy'n cyd-fynd ag egwyddorion gofal iechyd darbodus a bydd yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth wrth hyrwyddo'r newidiadau diwylliannol sydd eu hangen.

'Aros yn iach' yw'r maes cyntaf yn fframwaith canlyniadau'r GIG. Mae hwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl yng Nghymru'n cael gwybodaeth a chefnogaeth dda i reoli eu hiechyd corfforol a meddyliol eu hunain, yn ogystal â chanolbwyntio ar roi dechrau iach i blant. Mae atal yn parhau i fod yn rhan amlwg o'r drefn cyflawni a pherfformio, ac mae Llywodraeth Cymru yn monitro

amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad a chanlyniadau drwy fframwaith canlyniadau presennol y GIG a'r fframwaith canlyniadau iechyd cyhoeddus.

Mae pwyslais presennol Llywodraeth Cymru ar ddull cynllunio tymor canolig integredig dros dair blynedd yn sicrhau bod cynlluniau a ddatblygir gan y GIG yn cynnwys camau ymarferol sy'n canolbwyntio ar atal. Nod y cyllid a neilltuwyd ar gyfer gofal canolraddol, iechyd meddwl a gofal sylfaenol yw annog symud i waith atal. Er enghraifft, dyluniwyd y broses o ddyrannu cyllid yn uniongyrchol i glystyrau gofal sylfaenol er mwyn grymuso timau rheng flaen a chyflymu'r broses o roi cynlluniau y cytunwyd arnynt ar waith. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi a chefnogi datblygiad sgiliau arweinyddiaeth staff, gan gynnwys datblygu arweinwyr clinigol, er mwyn cynyddu'r capasiti a'r gallu i gyflawni hyn.

### **Cyllid Llywodraeth Leol**

**Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y dull o ddiwygio llywodraeth leol wedi newid ond mae'n credu bod angen eglurder ynghylch amcanion y gwariant yn y gyllideb ddrafft ar "Drawsnewid a Deddfwriaeth" a rhagor o fanylion am y rhagdybiaethau sydd gan y Llywodraeth am ddiwygio gwasanaethau llywodraeth leol yn y tymor hwy, ac rydym yn argymhell bod y Llywodraeth yn ymateb i'r pryderon hyn.**

**Ymateb:** Derbyn

Defnyddir y cyllid at amrywiaeth o ddibenion i gefnogi'r gweithgareddau gweddnewid a gysylltir â diwygio llywodraeth leol.

Mae disgwyl i bapur gwyn ar y diwygiadau arfaethedig, sy'n nodi cynigion Llywodraeth Cymru, gael ei gyhoeddi'n fuan. Bydd y penderfyniadau ynghylch sut y gellid defnyddio'r adnoddau sydd ar gael yn y modd mwyaf effeithiol i gefnogi'r diwygiadau arfaethedig yn dod yn fwy eglur dros y misoedd i ddod wrth inni gyd-greu'r agenda gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill. Bydd yr ymgysylltiad hwn yn cyfrannu at benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer defnyddio'r gyllideb hon. Bydd y buddsoddiad yn datblygu gwaith sy'n bodoli eisoes ac yn galluogi meysydd newydd o ymchwil, hwyluso, cefnogi ac ymwreiddio ffyrdd newydd o weithio.

**Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y dull tymor byr o bennu cyllideb refeniw llywodraeth leol yn cael effaith niweidiol ar allu llywodraeth leol i gynllunio'n effeithiol at y dyfodol, ac yn argymhell bod Ysgrifennydd y Cabinet yn ystyried rhoi setliadau dros nifer o flynyddoedd.**

**Ymateb:** Derbyn

Datblygwyd y Gyllideb ddrafft hon yn erbyn cefndir o ansicrwydd digynsail. Ein bwriad drwy gydol yr haf oedd cyhoeddi cyllideb ar gyfer gorwel tair blynedd,

a fyddai wedi rhoi mwy o sicrwydd i'n sefydliadau partner o ran cynllunio ar gyfer cyfnod cyllidebol hwy. Fodd bynnag, roedd y diffyg eglurder ynghylch yr adnoddau refeniw sydd ar gael y tu hwnt i 2017-18 yn golygu na fyddai'r uchelgais hon yn bosibl. O ganlyniad, dim ond cyllideb refeniw ar gyfer un flwyddyn y bu'n bosibl inni ei gosod, gyda chyllidebau cyfalaf am bedair blynedd.

Er bod y cyllid a ddarperir i lywodraeth leol drwy setliad heb ei neilltuo Llywodraeth Cymru yn bwysig ar gyfer gosod cyllideb llywodraeth leol, nid dyma'r unig ffynhonnell. Mae awdurdodau lleol yn cael cyllid o nifer o ffynonellau eraill gan gynnwys grantiau gan gyrff eraill, y dreth gyngor ac incwm o ffioedd a thaliadau. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried yr holl ffynonellau cyllid sydd ar gael iddynt ochr yn ochr â'u cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau wrth baratoi eu cynlluniau cyllid tymor canolig. Mae'n anorfod bod angen i gynlluniau o'r fath adlewyrchu amrywiaeth o senarios ar gyfer incwm a gwariant ac amrywiadau yn y galw am wasanaethau a'u darpariaeth.

Wrth inni ystyried cyllidebau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i ddarparu'r wybodaeth ddangosol sydd ar gael i lywio ei chynllunio cyllidebol i'r dyfodol. Ein nod bob tro yw darparu cyfres hwy o gyllidebau lle bo hynny'n bosibl.

### **Costau yn codi o raglen lywodraethu Llywodraeth Cymru**

**Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Llywodraeth yn ymgysylltu'n gynnar ac yn parhau i gynnal trafodaethau â rhanddeiliaid perthnasol am ddeddfwriaeth a gaiff ei chyflwyno yn ystod y pumed Cynulliad. Yn benodol, pe bai'r Llywodraeth yn bwrw yn ei blaen i gyflwyno Bil Llywodraeth Leol, byddai'r Pwyllgor yn disgwyl iddi ymgysylltu yn y modd hwn â chynrychiolwyr llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod costau'r Bil wedi'u cyfrifo'n gywir pan gaiff ei gyflwyno.**

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddarparu dadansoddiad manwl o'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw Fil Llywodraeth Leol yn y dyfodol.

Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu allanol yn canolbwyntio'n benodol ar y costau a'r manteision tebygol sy'n gysylltiedig â diwygio llywodraeth leol cyn i Lywodraeth flaenorol Cymru gyhoeddi'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft gan y Llywodraeth. Roedd y digwyddiadau hyn yn ganolog i sefydlu rhagdybiaethau costio cadarn a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn cyd-fynd â'r Bil drafft. Os bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gyflwyno Bil Llywodraeth Leol, bydd cysylltu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn parhau i chwarae rhan hanfodol o ran llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil.

### **Effaith y penderfyniad i adael yr UE ar y Gyllideb ddrafft**



**Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon rhanddeiliaid ynghylch yr effaith bosibl ar weithlu'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ystod y cyfnod sy'n arwain at benderfyniad y DU i adael yr UE ac ar ôl hynny, ac mae'n argymhell bod y Llywodraeth yn gweithio'n agos â'r GIG a llywodraeth leol er mwyn lliniaru unrhyw sgil-ffeithiau posibl yn y sectorau hynny.**

**Ymateb:** Derbynn

Mae gwaith ar y gweill ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar ein dylanwad mewn trafodaethau o fewn y DU, ac, yn sgil hynny, mewn negodiadau ffurfiol gyda'r Undeb Ewropeidd, i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i Gymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cyfleu a'u gwarchod.

Barn Llywodraeth Cymru yw y dylai dinasyddion yr UE sy'n gweithio ac yn byw yng Nghymru allu aros yma ar ôl i'r DU adael yr UE. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad dinasyddion o wledydd eraill sy'n byw yng Nghymru at ein heconomi, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n cymunedau. Rydym wedi ymrwymo i ymchwilio i'r holl opsiynau i hwyluso'r gwaith o recriwtio a chadw gweithlu'r GIG o'r UE a thu hwnt ar ôl i'r DU adael yr UE. Nid ydym am weld rheolaethau'n cael eu cyflwyno a fyddai'n niweidio economi Cymru neu wasanaethau cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y GIG.

Mae gwaith ymchwil ac arloesedd clinigol yn rhannau allweddol o weithgaredd y GIG. Mae rhaglenni ymchwil ac arloesedd yr UE yn galluogi ein hymchwilywyr i gydweithio â swyddogion cyfatebol ledled Ewrop i fynd i'r afael â'r heriau cyffredin sy'n wynebu ein systemau iechyd. Mae'r cydweithio hwn wedi helpu'r GIG i ddatblygu triniaethau newydd, i fabwysiadu arloesedd yn gynt, ac i wella ansawdd y gofal iechyd a ddarperir. Rydym yn gweithio i sicrhau y gall sefydliadau iechyd a gofal gyfrannu at raglenni iechyd, ymchwil ac arloesedd yr UE yn y dyfodol, ochr yn ochr â'n prifysgolion a sefydliadau ymchwil eraill yng Nghymru.

Mae fframwaith rheoleiddio sengl yr UE yn galluogi i dechnolegau iechyd newydd fod ar gael yn gynt er budd cleifion, gan sicrhau lefel uwch o ddiogelwch i gleifion a diogelwch o ran iechyd cyhoeddus. Byddwn yn ceisio osgoi gwahaniaethau rheoleiddiol rhwng y DU a'r UE i sicrhau y gall ein gwasanaethau i gleifion a gwasanaethau cyhoeddus barhau i gael budd o fynediad cynnar i dechnolegau iechyd arloesol.

Mae'n hanfodol bod Cymru'n parhau i fod yn gyfrannwr allblyg ac ymgysylltiedig ar lwyfan Ewrop a thu hwnt, er gwaethaf y ffaith bod y DU yn gadael yr UE.